



Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol Cymru

3 Hydref 2022

Annwyl Gyfeillion

Hoffwn rannu gyda chi eto nifer o astudiaethau achos gan gyrrff y GIG ar yr hyn maen nhw'n falch ohono. Mae'r rhain yn cael eu casglu fel rhan o'n Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru misol. Mae uchafbwyntiau pob sefydliad wedi'u nodi isod.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae tîm newydd wedi bod yn cymryd camau cadarnhaol tuag at wella gofal ar ôl marwolaeth drwy integreiddio'r timau profedigaeth a'r timau corffdy. Mae'r tîm yn cael eu cynnwys yn dilyn pob marwolaeth yn yr ysbyty ar draws y bwrdd iechyd, gan weithio ochr yn ochr â chlinigwyr i sicrhau proses o "ofal ar ôl marwolaeth" sy'n glir a symlach. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt i deuluoedd a staff ysbytai gan sicrhau bod sylw amserol, sensitif, a dyrus yn cael ei ddarparu. Cafodd y gwasanaeth sylw yn y South Wales Argus yn ddiweddar lle tynnwyd sylw at adborth gan deuluoedd ar yr effaith gadarnhaol y cafodd y gwasanaeth arnyn nhw ar adeg mor emosiynol:

[Aneurin Bevan health board Care After Death team leads the way | South Wales Argus](#)

Mae rhaglen recriwtio ar gyfer nyrsys cofrestredig rhyngwladol wedi llwyddo i benodi **50 o nyrsys** drwy ymgyrch genedlaethol Cymru gyfan, drwy ddull Unwaith i Gymru. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, roedd gan y rhaglen ran allweddol yn y gwaith o gynllunio staffio, i leihau swyddi gwag a sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion.

Mae 18 nyrs eisoes yn gweithio mewn ysbytai aciwt a 21 mewn ysbytai cymunedol. Bydd y garfan nesaf o 6 yn cyrraedd ddiwedd mis Medi, gyda'r garfan derfynol o 5 i fod i gyrraedd ym mis Hydref.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae uned adsefydlu strôc newydd i helpu i hybu adferiad cleifion strôc wedi agor yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon. Dyma'r gyntaf o dair canolfan adsefydlu newydd ar draws y Gogledd ar gyfer cleifion nad ydyn nhw bellach angen triniaeth strôc arbenigol mewn ysbyty aciwt, ond sydd dal angen triniaeth adsefydlu ar gyfer strôc na ellir ei ddarparu gartref. Cefnogir y ganolfan gan ystod lawn o staff arbenigol amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cleifion yn cael y cyfle gorau i wella'n dda o'u strôc, ac mae gan yr uned hefyd Ward Strôc cleifion mewnol pwrpasol gyda 12 gwely.

Datblygwyd Siarter Plant newydd i gefnogi plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw lais ar feysydd sy'n bwysig iddyn nhw. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â sefydliadau a chynghorau ar draws y Gogledd, gyfres o ddigwyddiadau a sesiynau ymgysylltu i bobl ifanc er mwyn helpu i greu'r Siarter newydd. Mae'r Siarter yn nodi safonau y mae sefydliadau'n gweithio iddyn nhw er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn deg ac yn cael llais. Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a Gwasanaethau Niwroddatblygu yn arwain datblygiad y Siarter ac maent hyd yma wedi ymgysylltu â thua 2,400 o blant a phobl ifanc.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Y cleifion cyntaf yn cael llawdriniaeth gyda chymorth robotig yng Nghymru o dan raglen genedlaethol arloesol. Cyflwynwyd y **Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot** gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau i gleifion canser drwy gynyddu nifer y cleifion ar draws Cymru sy'n gallu cael mynediad at lawdriniaethau lleiaf ymyrrol (MAS). Mae llawdriniaethau lleiaf ymyrrol yn cynnig manteision cydnabyddedig i'r cleifion, o'i gymharu â llawdriniaeth agored, gan gynnwys llai o boen, creithio ac amser adfer. Mae deg claf y colon a'r rhefr bellach wedi derbyn llawdriniaeth lwyddiannus gyda chymorth robotig gyda'r robot llawfeddygol CMR Versius.

Dyfarnwyd Gwobr Fferylliaeth Cymru am ddatblygiadau ym maes iechyd menywod. Cafwyd y wobwr i gydnabod datblygiad Arbenigwyr Nyrsio Clinigol Endometriosis (CNS) ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2018, pan gomisiynodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen i asesu darpariaeth y gwasanaeth a darparu mynediad at ofal i bob merch a menyw sydd ag endometriosis yng Nghymru. Yn sgil y gwaith hwn mae Arbenigwyr Nyrsio Clinigol Endometriosis wedi'u lleoli ym mhob Bwrdd Iechyd ar draws Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Gweithiodd y tîm iaith a Lleferydd gydag ysgolion lleol ar ôl COVID er mwyn cefnogi disgyblion ag anhawster atal dweud. Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar lesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr sydd wedi cael anawsterau iaith a lleferydd yn y gorffennol, yn enwedig y rhai sydd ag atal dweud. Yn ddiweddar, bu'r Tîm yn gweithio gyda phump ysgol gynradd yn yr ardal i gefnogi eu myfyrwyr i dderbyn sesiynau clinig a sesiynau ar-lein, yn ogystal â chefnogaeth un i un. Ar ôl y sesiynau therapi, rhoddodd y disgyblion gyflwyniad i'w dosbarthiadau ar 'Helpu Disgyblion sydd ag Atal Dweud' gan ddangos eu dealltwriaeth o beth yw atal dweud a hyder wrth gyfathrebu.

Yn ddiweddar, daeth Arweinwyr Cymunedol ynghyd i drafod y camau nesaf ar gyfer adeiladu cymunedau iachach ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2022, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol mewn cydweithrediad ag arweinwyr cymunedol gan roi cyfle i siarad gyda phobl leol am eu blaenoriaethau lleol a sut y gallant gydweithio orau i gwrdd â'r anghenion hynny. Nodwyd nifer o themâu allweddol yn y digwyddiadau:

- Cymuned
- Salwch hirdymor
- Heneiddio
- Ymddygiadau Iach
- Profiad y claf
- Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Mae arweinwyr cymunedol yn gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Bwrdd Iechyd i benderfynu sut y bydd canlyniadau'r digwyddiadau hyn yn cael eu troi'n gamau gweithredu tymor byr a thymor hir sy'n gwella iechyd a llesiant pobl ar draws Cwm Taf Morgannwg, yn gwella darpariaeth gwasanaethau ac yn creu mwy o gyfleoedd i gydweithio a chyd-gynhyrchu.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer dwy o Wobrau Diwydiant TG y Deyrnas Unedig. Mae un yn y categori 'Rhagoriaeth Sefydliadol, Y Lle Gorau i Weithio mewn TG' sy'n rhoi cydnabyddiaeth i sefydliadau sy'n darparu'r cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa gorau ar gyfer gweithwyr proffesiynol TG yn ogystal â dangos ymrwymiad cadarnhaol i amrywiaeth a chynhwysiant; a'r llall, yn y categori 'Rhagoriaeth Bersonol', yn cydnabod gwaith Arweinydd ein Desg Wasanaeth wrth ddatblygu Desg Wasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n cefnogi darparwyr gofal iechyd y GIG yng Nghymru. Bydd y beirniaid yn cyhoeddi enillwyr y gwobrau yn ddiweddarach y mis hwn.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn lansio rhaglen hyfforddi portffolio hyblyg newydd ar gyfer hyfforddeion meddygol. Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle unigryw i hyfforddeion meddygol ddatblygu eu diddordebau mewn addysg feddygol ôl-raddedig a gofal iechyd cynaliadwy ochr yn ochr â'u hyfforddiant clinigol.

Mae pum swydd cymrodoriaeth ar gael. Dwy gymrodoriaeth ym maes Addysg Feddygol Ôl-raddedig; a thair cymrodoriaeth o fewn y maes Gofal Iechyd Cynaliadwy.

<https://aagic.gig.cymru/newyddion/ffordd-newydd-o-hyfforddi-ar-gyfer-meddygon-yng-nghymru/>

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynnig prentisiaethau dwyieithog i'w weithwyr. Mae'r rhaglen brentisiaeth hon wedi ymateb i'r galw gan staff sydd eisiau cael cyfle i dysgu ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Hyd yma mae wedi cefnogi dau brentis sy'n dysgu'n ddwyieithog (un yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg) Mae cynlluniau ar y gweill i recriwtio mwy eleni. <https://aagic.gig.cymru/newyddion/mae-awdurdod-syn-chwarae-rhan-flaenllaw-yn-addysg-hyfforddiant-datblygiad-a-phennu-ffurf-y-gweithlu-gofal-iechyd-yng-nghymru-wedi-dechrau-cynnig-prentisiaethau-dwyieithog-iw-weithwyr/>

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Fel rhan o ymrwymiad parhaus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i **ddatgarboneiddio a sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol**, mae Ysbytai Glanwgili a Tywysog Philip wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio Desflurane fel nwy anesthetig oherwydd ei allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ym mis Awst, lansiodd y Bwrdd Iechyd Wasanaeth Peilot yn Sir Gaerfyrddin, ar gyfer **Llinell Asesu Symptomau Canser yr Ysgyfaint (LUMEN)**, ar gyfer smygwyr a phobl nad ydynt yn smygu. Mae'r gwasanaeth Llinell ffôn, a ariennir gan Moondance Cancer Initiative, yn gobeithio rhoi pwynt mynediad newydd i'r cyhoedd ar gyfer diagnosis Canser yr Ysgyfaint, gan ganiatáu i unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf i siarad â nyrs yn uniongyrchol i drafod eu symptomau a chael apwyntiad i gael Pelydr-X o'r frest. Os bydd yn llwyddiannus, y gobaith yw y bydd y cynllun peilot yn cael ei ymestyn i Sir Benfro a Cheredigion ac y bydd ganddo'r potensial i arwain at ddiagnosis cynharach i'r rhai sydd â symptomau o ganser yr ysgyfaint. <https://biphdd.gig.cymru/newyddion/datganiadau-ir-wasg/cynllun-peilot-llinell-asesu-symptomau-canser-yr-ysgyfaint-lumen-newydd-iw-lansio-yn-sir-gaerfyrddin/>

Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru

Fis diwethaf cyhoeddwyd **Cylchlythyr Iechyd Cymru ar y Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol ar gyfer Canser**. Mae'n amlinellu'r 21 llwybr cancer sydd wedi cael eu datblygu gan Rwydwaith Canser Cymru trwy'r Grwpiau Safle Canser, gyda chynrychiolaeth gan bob corff GIG sy'n rhan o'r llwybrau hynny. Yn ogystal â'r 21 llwybr cancer, mae Rhwydwaith Canser Cymru wedi datblygu Llwybr Symptomau Annelwig. Mae hyn yn adlewyrchu cyflwyno Clinigau Diagnosis Cyflym (RDC) ar gyfer symptomau annelwig ar draws Cymru.

Mae Cymru a Rhwydwaith Canser Cymru yn arwain y DU gyda'r datblygiad hwn. Am y tro cyntaf bydd holl feddygon teulu Cymru yn gallu cyfeirio cleifion gyda symptomau difrifol ond heb fod yn benodol i gael eu hasesu ar frys. Bydd y datblygiad a'r gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion agored i niwed, oedd yn aml yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r gwasanaeth cywir ac o ganlyniad, yn cael canlyniadau gwael. I weld Cylchlythyr Iechyd Cymru 2022 [cliciwch yma](#).

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys nifer o wasanaethau Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaethau GIG Cymru, ochr yn ochr â phartneriaid y Bwrdd Iechyd, wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori ar gyfer **Prosiect Cyllid Digidol y Flwyddyn yn y Gwobrau Cyllid Cyhoeddus** am eu gweithlu arloesol a'u datrysiad cyllid.

Mae'r Gwobrau Cyllid Cyhoeddus, sy'n cael eu cynnal yn flynyddol, yn cydnabod y bobl, y cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n dangos rhagoriaeth a gwreiddioldeb mewn cyllid cyhoeddus a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn seremoni a gynhelir ar 29 Tachwedd.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae'r **Gwobr Bach ac Iach** yn brosiect Powys yn unig sy'n helpu i ddatblygu sgiliau staff darpariaeth cyn-ysgol a staff ysgolion yn gysylltiedig â'r Wobr Genedlaethol Ysgolion Iach. Mae Bach ac Iach yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i gael mynediad at weithgareddau a fydd yn eu helpu i ddatblygu i'w llawn botensial fel unigolion iach a hapus. Er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi ystod o gyfleoedd hyfforddi, sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau i ymarferwyr sy'n ymdrin â phynciau fel coginio a maeth.

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyflwynodd y tîm 46 o sesiynau hyfforddi i dros 100 o staff o ddarpariaeth cyn ysgol ac ysgolion ym mhob rhan o Bowys, gyda phob hyfforddiant yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd i Gymru gan helpu athrawon i'w mapio ar eu Cynlluniau Datblygu.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Erthygl Eurohealthnet sy'n amlinellu dulliau hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (ACE) o fewn systemau Addysg. Mae'r erthygl o'r enw "*Piloting an approach to act on adverse childhood experiences and trauma in education systems*" (Saesneg yn unig), yn olrhain y gwaith a wnaed i ddechrau mewn ysgolion gan ymestyn i'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae'n cyflwyno pecyn cymorth sy'n cael ei gydgyhyrchu i gefnogi sefydliadau a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw. [Making education systems sensitive to Adverse Childhood Experiences \(eurohealthnet-magazine.eu\)](https://eurohealthnet-magazine.eu)

Mae'r Ganolfan Sgrinio gyntaf ar y stryd fawr wedi agor yn Aberpennar. Mae'r gwasanaeth yn dod â gwasanaethau ar gyfer tair rhaglen genedlaethol at ei gilydd: sgrinio llygaid diabetig, sgrinio am ymlediad aortaidd yn yr abdomen, a sgrinio clyw babanod newydd-anedig. Fe'i cynlluniwyd gan ystyried hygyrchedd y cyhoedd a'r cysyniad iechyd ar y stryd fawr, gan ei gwneud hi'n haws i bobl fynychu apwyntiadau sgrinio; a'r cyfle i fod yn fwy hyblyg gydag amseroedd a dyddiau apwyntiadau sgrinio. Y gobaith hefyd yw y bydd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i'r stryd fawr i gael eu sgrinio yn arwain at fantais ychwanegol o ran hybu busnesau lleol. Y gobaith yw y gall y model newydd hwn fod yn lasbrint ar gyfer dyfodol sgrinio yng Nghymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae **gwasanaeth newydd i helpu i leddfu symptomau Syndrom Coluddyn Llidus (IBS)** bellach ar gael i gleifion mewn meddygfeydd ar draws Bae Abertawe.

Mae'r gwasanaeth, sy'n cael ei redeg gan ddietygydd arweiniol IBS y Bwrdd Iechyd, yn rhoi cyngor arbenigol i bobl sy'n cael diagnosis o'r cyflwr. Ar ôl i anoddefiad bwyd pob person gael ei ddarganfod, cânt eu helpu i bersonoli eu deiet er mwyn eu helpu i ganfod cydbwysedd sy'n gweithio iddyn nhw. Y nod yw lleihau'r archwiliadau heb lawdriniaeth sy'n cael eu rhoi'n ddiangen, yn ogystal â lleihau ymweliadau â'r meddyg teulu.

Mae nyrsys yn gweithio i ymweld â chleifion ledled Abertawe i helpu i gadw pobl yn iach ac yn eu cartrefi ac allan o'r ysbyty. Mae'r nyrsys yn gweithio ar draws wyth meddygfa yn ardal orllewinol Abertawe, ac yn cynnal adolygiadau rheolaidd o bobl â chyflyrau cronig, megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), asthma, diabetes a methiant y galon, gyda'r nod o atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty ac atal oedi cyn rhoi triniaeth.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Cychwyn astudiaeth ar gyfer casglu platennau afferesis mewn hydoddiant ychwanegion platennau. Yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, mae platennau crynodedig o roddwyr afferesis gwirfoddol yn cael eu casglu a'u storio ym mhlasma'r rhoddwr ei hun ar hyn o bryd.

Mae'r tîm Labordy Datblygu Cydrannau ac Ymchwil (CDRL) yn cynnal astudiaeth gan ddefnyddio dull arall sy'n cynnwys casglu a storio'r platennau mewn cyfrwng sy'n cynnwys tua 35% o blasma'r rhoddwr a 65% o hydoddiant ychwanegion platennau artiffisial (PAS). Mae astudiaethau'n awgrymu bod platennau sy'n cael eu storio'n oer yn fwy effeithiol o ran atal gwaedu mewn cleifion trawma, a bod manteision posibl eraill fel cynnydd ym mywyd silff yr unedau a llai o risg o halogiad bacteriol yn yr unedau. Mae'r tîm yn gwerthuso'r astudiaeth ar hyn o bryd.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services